Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.02.2021

## BREXIT: Mwy o gymorth i fusnesau pysgota a physgod cregyn

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi mwy o gymorth ariannol i'r diwydiant bwyd môr gyda grantiau arian parod ar gyfer busnesau bwyd môr a dyframaeth ledled y DU. Ym mis Ionawr, darparodd y Llywodraeth £23 miliwn ar gyfer allforwyr bwyd môr a ddioddefodd golled ariannol oherwydd oedi o ran allforio pysgod ffres neu fyw a physgod cregyn i'r UE yn ystod mis Ionawr 2021. Bydd Llywodraeth y DU yn awr yn ehangu'r meini prawf cymhwysedd i dargedu busnesau dal a dyframaethu pysgod cregyn yr effeithiwyd arnynt gan ostyngiad yn y galw gan y sector lletygarwch yn y DU a thramor, yn ogystal ag allforion i'r UE amharwyd arnyn nhw. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3umd0DG

## Cronfa Cymorth Llifogydd i Fusnesau

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati’n ffurfiol i lansio Cronfa Cymorth Llifogydd, sydd ar gael i BBaChau yng Nghymru (gan gynnwys unig fasnachwyr a microfusnesau) i’w helpu i adfer eu busnesau yn dilyn difrod ac aflonyddwch stormydd Bella diwedd Rhagfyr 2020, a Christoph, ganol Ionawr 2021. Gall busnesau sy’n ceisio dod dros effeithiau dinistriol y llifogydd wneud cais am grant o £2,500 i’w helpu gyda chostau uniongyrchol cyn gynted â phosibl. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i’r Gronfa Cymorth Llifogydd i Fusnesau yw 31 Mawrth 2021, tra bydd y cyllid yn parhau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-cymorth-llifogydd-i-fusnesau

## WRAP Cymru: Y Gronfa Economi Gylchol – Galwad olaf ar gyfer ceisiadau grant

Mae’r cyfle i wneud cais am grant gan y Gronfa Economi Gylchol ar agor hyd at:

- 10fed Mawrth (hanner nos) ar gyfer ceisiadau am grant ar Raddfa Fach o hyd at £200,000
- 31ain Mawrth (hanner nos) ar gyfer ceisiadau am grant ar Raddfa Fawr o hyd at £750,000

Y rhain fydd y cyfleoedd olaf i fusnesau wneud cais am grant am gyllid cyfalaf i’w galluogi i ddefnyddio deunyddiau eilgylch mewn nwyddau (rhoddir blaenoriaeth i blastigion, papur/cerdyn a thecstilau) neu weithgareddau paratoi ar gyfer ailddefnyddio, atgyweirio, ac ailgynhyrchu yng Nghymru. Hyd yma, mae’r Gronfa Economi Gylchol wedi cynorthwyo 12 o fusnesau yng Nghymru drwy ddarparu £2.5m mewn arian grant ar gyfer prynu offer cyfalaf. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at greu 47 o swyddi, £47m o refeniw ychwanegol, ac arbedion cost o £1.2m i’r busnesau a gynorthwyir. I’ch helpu i wneud cais, gallai fod yn ddefnyddiol ymweld â’r Tudalen Derbynwyr sy’n cynnwys manylion am y mathau o brosiectau y dymunir eu cynorthwyo, ynghyd â fideos gan ymgeiswyr llwyddiannus, ewch i:

http://bit.ly/3qWhVZX

Bydd gweminar am ddim am 10:00am ddydd Mercher 24 Chwefror 2021 i egluro mwy, ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych. I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3qHO5Id

# Deddfwriaeth ddi-fwg: canllawiau ar y newidiadau o fis Mawrth 2021

Ar 1 Mawrth 2021, bydd y gyfraith sy'n ymwneud â smygu mewn rhai lleoliadau yng Nghymru yn newid. Mae'r canllawiau ar y newidiadau ar gael yma:

https://llyw.cymru/deddfwriaeth-ddi-fwg-canllawiau-ar-y-newidiadau-o-fis-mawrth-2021-html

# Adferiad Rhanbarthol 2021 – Uwchgynhadledd Busnes 24 Chwefror 2021 (Ar-lein)

Uwchgynhadledd Busnes a fydd yn rhoi sylw i'r buddsoddiadau, y cynlluniau a'r cymorth diweddaraf ar gyfer adferiad economaidd ardal Gogledd Cymru, Mersi a'r Ddyfrdwy. Cyflwyniadau gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington, a Growth Track 360. Bydd y digwyddiad ar-lein di-dâl hwn, rhwng 10:00am a 3:00pm ar 24 Chwefror 2021, yn cynnwys sesiwn holi ac ateb a chyfraniad dilynol gan fusnesau.

Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/3nZFAGn

# Hybu Cig Cymru: Ymchwilio ffermio cynaliadwy yng Nghymru 22 Chwefror 2021 7:30pm

Bydd Dr Prysor Williams o Brifysgol Bangor yn ymuno â Nia Davies o HCC mewn gweminar i drafod ymchwil diweddar sy'n archwilio ffermio cynaliadwy yng Nghymru. Hefyd yn ymuno fydd dau fyfyriwr doethuriaeth o Brifysgol

Bangor, Louise McNicol a Joe Jones.Rhaid cofrestru ar gyfer y gweminar yma fydd yn cael ei gynnal ar Zoom, ewch i:

http://bit.ly/3kayMFu

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru